GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG
(GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS A
LLWYTHO A MANNAU PARCIO)
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIO) (RHIF 3A) 2019

1. Ar 17 Mai 2021 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffordd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, Orchymyn i osod a diddymu'r cyfyngiadau parcio a nodir yn yr atodlen isod.
2. Daw'r Gorchymyn i rym ar 31 Mai 2021, neu ar y dyddiadau y bydd yr arwyddion a'r marciau ffordd yn eu lle, p'un bynnag sydd hwyraf ac fe'i gelwir "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) (Diwygio) (Rhif 3A) 2019"
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn ynghyd â chynlluniau sy'n dangos yr ardaloedd yr effeithir arnynt yn y cyfeiriad isod yn ystod oriau swyddfa arferol.
4. Os dymunwch gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos wedi 31 Mai 2021 wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Diwygir y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol fel a ganlyn:

Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN

Cynnig Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg.
(Insert into map schedule AU58).
Bassett Road Sili

O'r ochr dde-orllewinol o'r gyffordd â Cog Road am 73 metr tua'r de-ddwyrain.
O'r ochr ogledd-ddwyreiniol o'r gyffordd â Cog Road am 69 metr tua'r de-ddwyrain.

Dyddiedig 27 Mai 2021.

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg, Depo'r Alpau, Gwenfô CF5 6AA